GwE

# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

Rhannwch ein **BWLETIN** â thim staff eich ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n **RHESTR BOSTIO**.

## RHWYDWEITHIAU

### Cyfarfodydd Rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr ac Athrawon / Cymorthyddion sy'n Addysgu'r Oedran 3-8 oed

**FFOCWS Y RHWYDWAITH:**

Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd trwy'r MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

- Rhannu syniadau ynglŷn â strategaethau a darpariaeth effeithiol ynghyd â phrofiadau dysgu pwrpasol i gefnogi gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dull 'Chwarae, Arsylwi a Chwestiynu'.
- Rhannu arfer effeithiol ac enghreifftiau o astudiaethau achos gan ysgolion ar draws y rhanbarth.

Does dim angen cofrestru ar gyfer y cyfarfodydd rhwydwaith. Gall ymarferwyr fynychu unrhyw leoliad.

| | |
|---|---|
| 14/05/2024 | Ysgol Bro Idris, Dolgellau |
| 15/05/2024 | Swyddfa GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn |
| 16/05/2024 | Ysgol Pen Barras, Rhuthun |
| 20/05/2024 | Ysgol Cymerau, Pwllheli |
| 21/05/2024 | Canolfan Addysg y Bont, Llangefni |
| 22/05/2024 | Ysgol y Gelli, Caernarfon |
| 23/05/2024 | Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst |

*4-5yh*



## CYNNIG PROFFESIYNOL GwE

Yr ydym yn falch iawn o gyflwyno ein Cynnig Dysgu Proffesiynol i chi ar gyfer blwyddyn addysgol 2023-24. Yma cewch wybodaeth am yr holl ddysgu proffesiynol sydd ar gael i arweinwyr ac ymarferwyr ysgolion.

Cadwch olwg ar dudalen Cynnig Proffesiynol GwE ar ein gwefan. Mae'n cael ei diweddaru yn rheolaidd i gynnwys yr holl ddigwyddiadau newydd a gynigir gan GwE.

## PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

### Allwch chi wella ein dealltwriaeth o sut mae ysgolion wedi rhoi Cwricwlwm i Gymru ar waith?

Rydym yn chwilio am arweinwyr cwricwlwm mewn ysgolion i'n helpu i ddeall sut mae athrawon wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o addysgeg, a sut mae hyn wedi dylanwadu ar brofiadau dysgu mewn ysgolion.
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth.

## LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

### Rhwydwaith i Gymorthyddion Addysgu

Sesiwn anffurfiol dros **TEAMS** dydd Gwener **17/05/2024** i rannu gwybodaeth ac arfer effeithiol o safbwynt ymddygiad o fewn yr ystafell ddosbarth. **2.00pm - 2.45pm**

**Dolen i'r cyfarfod – https://tinyurl.com/uxvj4d2b**

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Elin Hutchinson - elinvaughanhutchinson@gwegogledd.cymru**

### Rhaglen Datblygu Darpar CALU



Mae Cylch 9 y Rhaglen Datblygu Darpar CALU yn cychwyn ym mis Medi 2024.
**Y DYDDIAD CAU yw 13/06/2024.**
Cliciwch yma am fwy o wybodaeth am y rhaglen a sut i ymgeisio.
Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â Wendy Williams, Cydlynydd LlDGA.

### Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu Cynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus i'r cynorthwywyr ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, cliciwch yma.

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Cyfarfod Rhanbarthol Arweinwyr Rhifedd Uwchradd

27/06/2024 | 9:00-15:00 Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno COFRESTRU

**Agenda**

- Gwybodaeth ac adborth gan ESTYN;
- Cyfle i fyfyrio ar negeseuon a rhydweithio;
- Gweithdy ymarferol i ddatblygu Rhifedd ar draws y cwricwlwm gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.

**Gofynnir i chi ddod â gliniadur gyda chi ar y diwrnod.** **Ni ddarperir cinio.**

**Am fanylion pellach cysylltwch â** Ffion Mealor **neu** Siân Caldwell

## Rhwydwaith Cydlynwyr BAC Uwch

13/06/2024 | 13:30-15:00 | Swyddfa GwE, Bryn Eirias, Bae Colwyn | COFRESTRU

Cyfle i rannu syniadau ynghylch rhaglen D+A y cymhwyster BAC Uwch newydd.

1. Prosiect Cyrchfannau'r Dyfodol + Prosiect Unigol: Rhannu adnoddau D+A, cynlluniau gwaith, amserlen asesu
2. Rhwydweithio + dyddiad ar gyfer cyfarfod tymor yr Hydref + unrhyw ddiweddariadau i'r safle Teams

Dewch â gliniadur + unrhyw esiamplau o adnoddau y byddech yn hapus i'w rhannu ogydd!

# Y GYMRAEG

## Ydych chi Eisiau Cryfhau eich Cymraeg? [*Gloywi Iaith*]

**Pa lefel ydych chi ei hangen?** Pa lefel ydw i?

**Beth sydd ar gael?** Dewis eang, yn cynnwys cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg. Dulliau gwahanol o ddysgu, yn cynnwys hunan-astudio a chyfle i ddysgu yn y gymuned. Cymraeg Gweithlu Addysg | Dysgu Cymraeg

**Angen mwy o wybodaeth?** Cysylltwch â'r awdurdod lleol neu GwE.

## Mwy o Stori'r Iaith

Dyma adnodd addysgol sy'n cefnogi cyfres deledu S4C, 'Stori'r Iaith'. Yn yr adran 'adnoddau', ceir gwybodaeth gefndirol i athrawon am 11 cyfnod yn hanes yr iaith, fideos i sbarduno gwersi, a gweithgareddau amrywiol sy'n cwmpasu pob maes dysgu a phrofiad.


Mae adran y 'llinell amser' yn gartref i adnodd rhyngweithiol sy'n nodi holl gamau hanes yr iaith o'i dechreuad hyd heddiw. Mwynhewch y dysgu a'r dathlu wrth bori drwy adnoddau Mwy o Stori'r Iaith!

Cliciwch yma i gael mynediad

## Hanes Mawr Cymru

Mae hanes Cymru yn llawn pobl ryfeddol a chymeriadau mawr. Dewch ar daith hwyliog gyda Llinos Mai i'w cyfarfod!

PODLEDIADAU




## Pecyn addysg Neges Heddwch ac Ewyllys Da'r Urdd, 2024

Thema'r Neges eleni yw dathlu Deiseb Heddwch Menywod Cymru 1923-24 ac ysbrydoliaeth y ddeiseb honno ar gyfer galw am heddwch heddiw ac i'r dyfodol.

LAWRLWYTHWCH Y PECYN ADDYSG

Urdd

# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

## Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:

CYNRADD | UWCHRADD



### SECTOR CYNRADD

## Cwrs TELT gan y Brifysgol Agored wedi'i ariannu'n llawn 2024-2025

Ym mis Mehefin a Gorffennaf, byddwn yn recriwtio ysgolion ac athrawon sydd â diddordeb mewn cofrestru ar gwrs 2024-25. Ariennir y cwrs yn llawn gan Dyfodol Byd-eang GwE . Am fwy o wybodaeth am y cwrs, bydd y Brifysgol Agored yn cynnal gweminar ar 11/6/24 15.45-16.45. Manylion llawn a chofrestru **yma**.

## Cefnogi cynnydd dysgwyr mewn Ieithoedd Rhyngwladol. Mai 2024, am ddim!

21/05/2024 | 15:45-17:00 Gweithdy Ar-lein **COFRESTRU**

Cyfle gwych i ymarferwyr ysgolion cynradd ddatblygu syniadau perthnasol ac ymarferol ar gyfer cwricwlwm Ieithoedd Rhyngwladol pwrpasol a hawdd i'w roi ar waith yn eu lleoliad.

Mae Institut français yn trefnu sesiwn uwch sgilio i ymarferwyr ysgolion cynradd yng Nghymru, a hynny'n rhad ac am ddim.

Bydd y sesiwn yn edrych ar sut i gefnogi cynnydd dysgwyr mewn Ieithoedd Rhyngwladol, sut mae cynnydd yn edrych a sut i'w fesur. Canolbwyntir ar enghreifftiau ymarferol ac adnoddau Ffrangeg ond gall athrawon o bob iaith gymryd rhan. Mae'r sesiwn ar agor i ymarferwyr waeth beth yw lefel eu Ffrangeg, a boed chi'n cyflwyno Ffrangeg eisoes neu wrthi'n cynllunio ar gyfer hynny. Bydd y sesiwn yn un rhyngweithiol, gyda digon o gyfleoedd i rannu syniadau, holi cwestiynau a magu hyder.

## SECTOR UWCHRADD

### Recriwtio Mentora ITM ar gyfer 2024-2025

**COFRESTRWCH EICH YSGOL ERBYN 24/05/2024**

Ydych chi eisiau tanio brwdfrydedd eich dysgwyr am Ieithoedd a diwylliannau? Ydych chi eisiau cynyddu maint eich dosbarthiadau IRh TGAU? Manylion yma.

### Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd : 10/06/2024

Lleoliad, agenda a ffurflen archebu yma

## IECHYD A LLES

### Cynnig Proffesiynol Iechyd a Lles GwE

**Gweithdy Chwarae i Ddysgu:**

Nod y gweithdy Dysgu Proffesiynol hwn yw cefnogi athrawon ac ymarferwyr i ddefnyddio adnoddau parod a rhad ac am ddim e.e. Chwarae i Ddysgu a Symudiad Creadigol, i gyflwyno sesiynau a gwersi llythrennedd corfforol cynhwysol, sy'n canolbwyntio ar y plentyn. Y nod yw datblygu hyder, sgiliau a chymhwysedd ymarferwyr wrth iddynt gyflwyno elfen 'gorfforol' MDaPh Iechyd a Lles



Clwb Pêl-droed Porthmadog 16/05/2024 8:45-15:15

## NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

Cliciwch yma i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol sydd ar gael i holl staff Cymru.

## Grŵp *Facebook* newydd i gefnogi Cynorthwywyr Addysgu

Mae grŵp ***Facebook*** newydd Consortia Addysg Cymru i gefnogi Cynorthwywyr Addysgu yng Nghymru ar agor! Byddem wrth ein bodd pe baech chi'n ymuno â ni a rhoi gwybod i ni am unrhyw beth yr hoffech ei weld yn y grŵp.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Er mwyn helpu pob ysgol a lleoliad ledled Cymru i wireddu'r Cwricwlwm i Gymru, datblygwyd rhaglen dysgu proffesiynol gynhwysfawr gan y tîm Dysgu Proffesiynol trawsranbarthol.

Mae'r pamffled **hwn** yn cynnwys dyddiadau allweddol, dolenni i'r sesiynau rhithiol a dolenni i'r recordiadau.

## Tegwch mewn Addysg - Dysgu Proffesiynol

**ADDYSGU A DYSGU I GEFNOGI DYSGWYR SY'N AGORED I NIWED A DAN ANFANTAIS**

**Cliciwch ar y ddolen hon** i ddarllen mwy am yr adnoddau a sut gallwch chi fynd ati i'w defnyddio yn y dosbarth.

## Cyfle ym Maes Cymell a Mentora

Mae'r consortia addysg rhanbarthol wedi bod yn datblygu diwylliant o Gymell a Mentora trwy raglen hyfforddiant genedlaethol ers rhai blynyddoedd bellach.

Mae'r rhaglen datblygiad proffesiynol rithiol hon yn cynnwys 6 sesiwn 3½-awr dros gyfnod o 6 wythnos. Trefnir carfan newydd ar gyfer tymor y Gwanwyn 2024.

**Dilynwch y ddolen hon am fwy o wybodaeth a ffurflen gofrestru.**

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Sgwrs Genedlaethol Haf 2024

**PWRPAS, ADDYSGEG A CHYNNYDD**

Gan adeiladu ar Sgyrsiau Rhwydwaith Cenedlaethol **2024** yn seiliedig ar Gwricwlwm a Chynnydd, bydd Sgwrs Genedlaethol Haf 2024 yn canolbwyntio ar rôl addysgeg o ran cefnogi ein dealltwriaeth o'r Cwricwlwm i Gymru.

Wedi'i chefnogi gan yr Athro Graham Donaldson, bydd y Sgwrs Genedlaethol hon yn rhoi cyfle i chi:

- Gymryd rhan mewn sgyrsiau proffesiynol gydag ymarferwyr ledled Cymru; aros, myfyrio a dysgu gan y naill a'r llall wrth i ni barhau â'n taith Cwricwlwm i Gymru.
- 'Trafod Addysgeg, Meddwl am Ddysgu' mewn amgylchedd diogel. Bydd cyd-weithwyr o ysgolion a lleoliadau eraill yn gallu ymwneud â'i gilydd a phartneriaid addysg, yn cynnwys Estyn, gwasanaethau gwella ysgolion, Sefydliadau Addysg Uwch a'r academi arweinyddiaeth.
- 'Trafod Addysgeg, Meddwl am Arweinyddiaeth'. Archwilio sut ydym yn datblygu fel sefydliadau dysgu myfyriol a chwilfrydig gan ddarparu'r profiadau gorau ar gyfer dysgwyr Cymru.

Os ydych chi'n arweinydd, yn athro neu'n gynorthwyydd dosbarth mewn ysgol yng Nghymru, bydd hwn yn gyfle gwerthfawr i rannu syniadau, dysgu gan eraill a magu perthnasoedd a fydd yn cryfhau ein dealltwriaeth gyffredin o'r Cwricwlwm i Gymru.

**COFRESTRWCH YMA**

## Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni’r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

Gweler y dolenni canlynol i’r **canllawiau** a’r **astudiaethau achos** cysylltiedig.

## Awyddus i Rannu eich Angerdd am STEM â’r Genhedlaeth Nesaf?





Mae athro gwych yn dod â’r pwnc yn fyw drwy addysgu gwyddoniaeth yn ei ffordd unigryw ei hun.
Alli di ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr?
I ddechrau arni, cer i: **https://addysgwyr.cymru/stem**

## Ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar Ddysgu 14 i 16 yn y Cwricwlwm i Gymru

Mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi lansio ymgynghoriad ar ganllawiau statudol drafft ar **Ddysgu 14 i 16 yn y Cwricwlwm i Gymru**. Bydd yr ymgynghoriad ar agor tan 8 Mai 2024.

**Datganiad ysgrifenedig**
**Datganiad Ysgrifenedig: Dysgu 14 i 16 o fewn Cwricwlwm i Gymru – ymgynghoriad ar ganllawiau statudol (28 Chwefror 2024) | LLYW.CYMRU**
**Datganiad i’r wasg**
**Hoffai Llywodraeth Cymru gael eich barn ar ddysgu 14 i 16 o dan y Cwricwlwm i Gymru | LLYW.CYMRU**

## Cwricwlwm i Gymru: Ymlaen â’r Daith



Dymunwn dynnu eich sylw at ddiweddariad i ganllaw’r Llywodraeth i ysgolion ar gynllunio, gweithredu ac adolygu eu cwricwlwm sydd bellach ar Hwb:

- Dolen i’r canllawiau : Cwricwlwm i Gymru: ymlaen â’r daith - Hwb (gov.wales)
- Dolen i fideo yn egluro’r negeseuon allweddol: Repository - Hwb (gov.wales)

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Sesiynau Academaidd i Ysgolion a Cholegau

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

Hoffech chi wybod mwy am faes pwnc o'ch dewis? Rhoi blas i’ch disgyblion o bwnc nad ydych chi’n ei gynnig yn yr ysgol, neu gipolwg ar fywyd prifysgol? Rydym yn cynnig sesiynau yn rhad ac am ddim ar gyfer meysydd pynciol gwahanol. Fe’u cyflwynir gan ein darlithwyr a’n swyddogion recriwtio rhanbarthol:

- sesiynau wedi eu dylunio ar gyfer Safon Uwch, TGAU neu Fagloriaeth Cymru ar faes pwnc o'ch dewis
- sesiynau ar ein campws ym Mhrifysgol Bangor, yn eich ysgol neu goleg neu ar-lein
- sesiynau cyfrwng Cymraeg neu Saesneg mewn gwahanol feysydd pynciol.

**Cliciwch yma** am ragor o fanylion